Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Y Felinheli a gynhaliwyd ar yr 9fed Chwefror, 2010, yn Y Neuadd Goffa,, Y Felinheli
Minutes of the meeting of Felinheli Community Council held on 9th February, 2010 at The Memorial Hall , Y Felinheli

Yn Bresennol/Present:

Ken Brown(Is-Gadeirydd)
Lena Ashley; Iestyn Harris; Pat Jones;
Eluned Owen; Meirion Roscoe;
George Smith; Pat White; Daniel Williams

1) Sylwadau Agoriadol/Opening Remarks:

Yn absenoldeb y Cadeirydd, Cyng Sian Gwenllian, arweinwyd y cyfarfod gan Cyng Daniel Williams.
Cafwyd munud o dawelwch er cof am May Bradnock a fu farw yn ddiweddar.

Croesawyd yr aelodau i'r cyfarfod.

Owing to the absence of the Chairman, Cllr Sian Gwenllian, the meeting was conducted by Cllr Daniel Williams.
A minute silence was observed in memory of May Bradnock who died recently.

The members were welcomed to the meeting.

2) Ymweliad gan PC Andy Jackson, Plismon Rhawd Cymunedol.
Visit by PC Andy Jackson, Community Beat Officer

Oherwydd galwadau gwaith, nid oedd PC Andy Jackson yn bresennol. Penderfynwyd ei wahodd i'r cyfarfod nesaf ar y 9fed Mawrth.

Work commitments prevented PC Andy Jackson from attenting the meeting. Decided to invite him to attend the next Council meeting on 9th March.

3) **Ymddiheuriadau/Apologies:** Sian Gwenllian; Aled Job; Carolyn Pritchard; Gerald Roberts

4) Datgan Diddordeb / Declaration of Interest – Dim / None

5) Cofnodion/Minutes:

Derbyniwyd cofnodion o'r Cyfarfod a gynhaliwyd ar 12fed Ionawr fel rhai cywir.

Minutes of the Meeting held on 12th January were confirmed as correct.

6) **Materion I'w Trafod/Matters for Discussion:**

1) Gwefan Cymunedol – adroddwyd bod Anfoneb wedi ei dderbyn yn rhestru côst y gwaith o gynnal a diweddaru'r wefan. Eglurodd y Clerc mai cyfrifioldeb y Cyngor oedd cynnal a chadw'r wefan er lles y gymuned er nad oedd wedi ystyried y gôst yn ei gyllideb. Eglurodd hefyd y diddordeb mawr sydd yn cael ei ddangos yn y wefan achos bod bron 30,000 'hits' ym mis Ionawr ei hun. Mae llawer o hyn i lawr i'r Cadeirydd, Cyng Sian Gwenllian, am ei gwaith yn diweddaru'r wefan yn gyson. Awgrymwyd y buasai o les i fusnesa'r ardal fanteisio ar y wefan i hybu eu busnes. Traffic a Parcio – Dim symudiad ar y mater o drosglwyddo darn o dir tu ol i Neuadd yr Eglwys ar gyfer creu maes parcio. Clerc wedi cysylltu a'r Vicer eto ond dim ateb pendant wedi ei dderbyn.
2) Cyfyngu amser parcio ar Stryd Bangor – Clerc i bwyso eto ar Adrian Williams o Gyngor Gwynedd i symud ymlaen efo'r cynlluniau sydd wedi eu trafod a'u cytuno.
3) Gardd Fon – cafwyd ymateb oddiwrth Cyngor Gwynedd yn awgrymu mai ymestyn y llinellau melyn dwbl oedd y ffordd gorau i ddatrys y broblem. CYTUNWYD i ymestyn y llinellau melyn dwbl ac i'w weithredu cyn gynted a phosib.

Felin Daclus :–

1) Llwybr preifat rhwng Uwch Menai/Penceunant/Stryd Menai. Clerc wedi ceisio pris am y gwaith ond am fod y pris yn uwch na ddisgwylid penderfynwyd gofyn i gontractwyr eraill am amcan brisiau.GWEITHREDIAD – Cyng Ken Brown i gysylltu a cheisio am brisiau eraill.

3) Canolfan Iechyd Rowen : Dim i'w adrodd.

4) Tai Fforddiadwy : Tan y Maes, Y Felinheli - Yn dilyn ymholiad gan y Cadeirydd, Cyng Sian Gwenllian, cafwyd llythyr oddiwrth y datblygwyr yn egluro eu sefyllfa a beth oedd eu bwriad. Cafodd pob Gynghorydd gopi o'r llythyr. GWEITHREDIAD – 1) Cyng Sian Gwenllian i gadw mewn cysylltiad efo Adran Cynllunio'r Cyngor ar gais Tan y Maes. 2)Cynghorwyr i holi ar y math o dai hoffai pobol weld yn Tan y Maes.

1) Community Web Site – Reported that an Invoice had been received for maintaining and updating the web site. The Clerk explained that it was the responsibility of the Community Council to maintain the web site for the benefit of the community even though the cost had not been taken into account when preparing the budget for the 2010/2011 financial year. It was also explained how popular the web site was in that it had attracted almost 30,000 hits during the month of January alone. This, in the main, was down to Cllr Sian Gwenllian's work in updating the web site on a regular basis. It was suggested that local businesses could benefit from using the web site to promote their business.

Traffic and Parking –Reported that there was no progress to report on the transfer of a parcel of land at the rear of Church Hall for the purpose of creating a parking area.. Clerk had again contacted the Vicar, but no definitive response has been received.

2) Parking Restrictions – Clerk to impress on Adrian Williams, Gwynedd Council, to proceed with the plans as discussed and agreed.

3) Gardd Fon, Y Felinheli – A response from Gwynedd Council had been received suggesting that extending the double yellow lines would be the best way to resolve the problem. AGREED to extend the double yellow lines as soon as possible.

FELIN DACLUS -

a. Private footpath between Uwch Menai/Penceunant, Menai Street. The Clerk reported that a price for clearing the footpath had been obtained, but as the price far exceeded what was expected it was decided to request further quotes. ACTION – Cllr Ken Brown to contact and obtain further quotes.

Rowen Health Centre : Nothing to report.

Affordable Housing : Tan y Maes, Y Felinheli. Following enquiries by the Chairman Cllr Sian Gwenllian, a letter had been received from the developers explaining their situation and expectations. A copy of the letter was distributed to all members. ACTION- 1) Cllr Sian Gwenllian in contact with the Council's Planning Department.

2) Councillors to enquire as to the type of properties people would like to see at Tan y Maes.

7) Adroddiad Pwyllgor Rheoli'r Neuadd

a) Cafwyd adroddiad gan Cadeirydd y Pwyllgor Rheoli, Cyng Iestyn Harris. Adroddodd amserlen diwygiedig i'r prosiect.
12 Chwefror - dogfennau tendro i'w dosbarthu – 25 Chwefror – dyddiad cau.
Offer Defnyddwyr y Neuadd – bydd amlwyth ar gael ar gyfer offer y gwahanol gymdeithasau a bydd hwn ddigon o faint i gadw matiau y clwb bowlio. GWEITHREDIAD: DW i sicrhau hyn a chadarnhau sefyllfa yswiriant.

b) GWEITHREDIAD (1)– IH, WB CP, KB,DW , i barhau cadw cysylltiad agos a'r pensaer

c) GWEITHREDIAD (2) Pwyllgor Rheoli i drafod polisi llogi i grwpiau lleol a phreifat gan ymchwilio i'r sefyllfa mewn pentefi eraill.

d) Gan na fydd y gwaith yn dechrau yn ystod y bythefnos cyntaf ym mis Mawrth, cytunwyd i gynnal cyfarfod Mawrth yn y Neuadd, mis Ebrill yn y Capel a yna yn y Felin Sgwrsio ar ol hynny tan fod y Neuadd yn ail-agor. GWEITHREDIAD– WB i drefnu.

HALL MANAGEMENT COMMITTEE -

a) Report from the Chairman of the Management Committee, Cllr Iestyn Harris. Details of an amended timetable was announced: 12th February – tender applications to be distributed – 25th Februrary – closing date.
A container would be provided to store Hall User's equipment and this would be large enough to store the Bowling Clubs' mats. ACTION – DW to confirm this and to enquire about the position regarding insurance.

b) ACTION (1) IH, WB, CP,KB, DW to continue to keep close contact with the Architect.

c) ACTION (2) Hall Management Committee to discuss a hiring policy to local and private groups and by enquiries of other villages.

d) As work will not be commencing during the first two weeeks of March, it was decided that the March meeting of the Community Council be held at the Hall and the April meeting at Bethania Chapel, thereafter at Y Felin Sgwrsio until completion of the works on the Hall.
ACTION – WB to arrange.

8) Cadarnhau Gwariant y mis blaenorol ac Adroddiad Ariannol/Confirm Payments for the Previous Month and Financial Report:

Cadarnhawyd gwariant Mis Ionawr yn cynnwys taliad o £345.94 i Delwedd am gynnal a diweddaru'r wefan.

Eglurwyd bod cyfanswm o £11,193.23 yn y banc hyd at ddiwedd mis Ionawr 2010 ond bod £3,000 or £5,000 addawyd, wedi ei glustnodi ar gyfer Pwyllgor Rheoli'r Neuadd sef £2,000 o flwyddyn ariannol 2008/9 a £3,000 o flwyddyn 2009/10. Gan fod y flwyddyn ariannol 2009/10 yn dod i ben ar 31 Mawrth, 2010 cytunwyd i drosglwyddo'r £3,000 yn ystod mis Chwefror.
GWEITHREDIAD - WB

Payments for the month of January were confirmed including payment of £345.94 to Delwedd for maintenance and up-dating the web site.
It was explained that there was a bank balance of £11,193.23 as at 31 January, but that £3,000 of the £5,000 promised, had been earmarked for the Hall Management Committee i.e. £2000 from the 2008/09 financial year and £3,000 from 2009/10. As the 2009/10 financial year ends on 31 March 2010 it was decided that the £3,000 be transferred during the month of February.
ACTION – WB.

9) Gohebiaeth/Correspondence:

Nodwyd a gweithredwyd fel bo angen, y gohebiaeth a ddaeth i law yn ystod y mis.
Correspondence received during the month were noted and acted upon as necessary.

Snowdon Developments parthed: tai fforddiadwy ger Y Wern, Y Felinheli
Re: affordable housing near Y Wern, Y Felinheli
Dosrannwyd y llythyr i bob Cynghorwr er gwybodaeth o'i gynnwys.
The letter was distributed to each Councillor for information as to its contents.

1) Un Llais Cymru / One Voice Wales
Garddwest Palas Buckingham / Buckingham Palace Garden Party

2) Llywodraeth Cynulliad Cymru / Welsh Assembly Government

Benthyca gan Cynghorau Cymuned a Thref yn 2010-2011
Borrowing by Community and Town Council in 2010-2011

Ymgynghoriad ar Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru)(Diwygio)
Consultation on Accounts and Audit (Wales) Amendment Regulations

3) Cyngor Gwynedd / Gwynedd Council - Ymgynghoriad Cyhoeddus –Cynllun Peilot Pwllheli Rheoli Risg Llifogydd a'r Arfordir
Public Consultation – Pwllheli Pilot Scheme Flood Risk Management and the Coastline.

4) Cyngor Iechyd Cymuned / Community Health Council
Gweinidog Iechyd yn amlinellu strwythur newydd y Cyngor Iechyd Cymuned
Penodi Aelodau i Gynghorau Iechyd Cymuned.
Health Minister outlines new structure of Community Health Councils
Appointments to Community Health Councils

10) Adroddiad Is-Bwyllgor Cofeb y Cloc/Memorial Clock: -

Dim i'w adrodd / Nothing to report

Ceisiadau Cynllunio/Planning Applications:

1) Awelon, Ffordd Pen y Bryn, Y Felinheli – Torri coeden sy'n destyn gorchymun gwarchod coed / Fell a tree that is subject of a tree preservation order.

   DIM GWRTHWYNEBIAD OND CYSYLLTER A SWYDDOG GWARCHOD COED
   NO OBJECTION BUT CONSULT WITH TREE PRESERVATION OFFICER

2) 13 Ffordd Bangor/Bangor Street Y Felinheli – Addasu'r ry presennol i 3 uned breswyl a mannau parcio / Conversion of existing dwelling into 3 residential units and parking spaces –
   Cyng Iestyn Harris yn datgan diddordeb / Cllr Iestyn Harris declared an interest

   DIM GWRTHWYNEBIAD cyn belled na fydd parcio ar Ffordd Bangor
   NO OBJECTION provided that there will be no parking on Bangor Street

3) Hen Stesion, Uned 1 – 6 / The Old Railway Station, Units 1 – 6, Y Felinheli Cais i gadw siedau Gardd, ail-leoli mannau parcio a manylion o'r ffensys yn unol a chaniatad cynllun rhif CO8A/0727/20/LL - Application to retain garden sheds, re-positioning of car parking spaces and details of fencing in accordance with the planning permission CO8A/0727/20/LL
   Cyng Iestyn Harris yn datgan diddordeb / Cllr Iestyn Harris declared an interest

   DIM GWRTHWYNEBIAD / NO OBJECTION

12) Adroddiad Is Bwyllgor y Fynwent/ Report of the Cemetery Sub-Committee

Adroddwyd fod y plac wedi ei osod ar y fainc er cof am Cyng Emyr Wyn Roberts.

Reported that the plaque had been fixed on the banch in memory of Cllr Emyr Wyn Roberts.

13) Adroddiad Is Bwyllgor Maes Parcio/Lon Las/ Report of the Car Park/Lon Las Sub Committee

Maes Parcio – yn groes i benderfyniad y Cyngor i beidio ail osod polyn parcio yn y Maes Parcio ar ol ei ddifrodi gan rhywun, penderfynwyd bod angen polyn yno i rwystro parcio ar man lle mae llinellau croesymgroes yn bodoli. Mae polyn newydd wedi ei archebu a'i osod.

Lon Las – adroddwyd bod twll ar y Lon Las heibio Penningtons i gyfeiriad Bangor. GWEITHREDIAD – Clerc i gysylltu a Mark Balaam.

Gor dyfiant ar i meini llechi – ddim wedi cael sylw – GWEITHREDIAD – Clerk i atgoffa Mark Balaam

Arwydd ochr Pen y Bryn i Lon Las – Arwydd DIM PARCIO wedi ei osod.

Contrary to the decision not to replace the damaged parking bollard at the car park, it was decided that a new bollard was required to prevent parking on the criss cross yellow markings. The new bollard has been ordered and fixed.
Lon Las – Reported that a hole had appeared on Lon Las in the direction of Bangor from Pemnningtons. Action – Clerk to contact Mark Balaam.
Reported that the overgrowth on the slate slabs had not been dealt with. ACTION – Clerk to remind Mark Balaam
Sign on Pen y Bryn side of Lon Las – NO PARKING sign now fixed.

14) Adroddiad Is Bwyllgor Llwybrau Cyhoeddus/Cysgodfannau/Meinciau
Report of Public Footpaths/Shelters/Benches Sub Committee

Llwybrau – Adroddwyd bod rhestr nodweddion hanesyddol yn cael eu casglu a bydd rhain yn cael eu cynnwys ar y map fydd ar y wefan. GWEITHREDIAD Cyng. George Smith a Mr Graham Fitch i weithredu.

Taflen Llwybrau Cyhoeddus – dim i'w adrodd

Footpaths – reported that a list of historical information was being compiled and will be included in the map on the web site. ACTION – Cllr George Smith and Mr Graham Fitch to action.

Footpaths Pamphlet – nothing to report.

15) Adroddiad y Cynghorydd Sir/Report of County Councillor

Yn absenoldeb y Cynghorydd Sir derbyniwyd adroddiad ysgrifenedig.

Dyma rai o'r materion y bum yn ymwneud â nhw yn ddiweddar yn y pentref:
1)**Tai Tan y Maes/Tyddyn Perthi** : Bum yn cyfarfod a gohebu efo'r datblygwr am y bwriad o godi 32 o dai fforddiadwy. Mae pryder am y risg o lifogydd yn sgil y datblygiad. Mae Cyngor Gwynedd wedi gofyn am Asesiad Llifogydd. Yn y cyfamser, hoffwn gael eich barn am y math o dai (o ran maint a pherchnogaeth) y teimlwch fyddai'n addas i'r pentref petai'r datblygiad yn mynd yn ei flaen.

2)**Arwydd Eglwys Llanfairisgaer** : Mae'r Cynulliad wedi cytuno i osod arwydd newydd ger cylchdro Plas Menai.
3)**Torri coed gwaelod Brynffynnon** : Cyngor wedi gwneud y gwaith a bydd y sbwriel yn cael ei gasglu yn fuan.
4)**Gwaith adeiladu** ar hen safle Modurdy Menai, Ffordd Caernarfon : mae Priffyrdd yn ymchwilio i effaith hyn ar y ffordd ger llaw.
5)Papur Bro **Y Goriad** : mae Alwen Derbyshire a minnau ymhlith y 10 golygydd newydd – ymddengys fod dyfodol y papur yn ddiogel am y tro.
6)**Maes Y Felin** : Rwyf yn dal i weithio i gael atebion i broblem baw cŵn a phroblemau parcio yma. Mae swyddogion gorfodaeth yn yr ardal.
7)**Cae Aml Bwrpas ger y Lon Las** : mae'r cais cynllunio wedi ei dderbyn. Rwyf yn gweithio gyda'r Clwb Pêl -droed Ieuenctid i gael cais ariannol at ei gilydd.
8)**Felin Daclus**: mae'r Cynulliad am ddefnyddio'r prosiect fel esiampl o ymarfer da.
9) Bum yn delio efo nifer o broblemau ers newid y trefniant casglu **sbwriel/ailgylchu** ond ymddengys fod pethau yn setlo bellach.
10)Cefais gyfarfod arall yn **Rhyd Y Fenai** : gwaith yn parhau
11)**Neuadd Goffa** : y cynlluniau manwl yn barod ac adeiladwyr i'w pennu ddechrau Mawrth.
12)**Felin Sgwrsio** : galwch heibio ar fore Gwener os ydych am drafod unrhyw broblem. Mae rhaglen lawn o weithgareddau ar waith.
13)**Gwefan** : cafwyd bron i 30,000 o *hits* yn Ionawr 2010 : mwy o newyddion lleol ar www.felinheli.org

Councillor's Report : 09/02/10
These are some of the matters I have been dealing with lately in the village:
1) Tan y Maes/Tyddyn Perthi housing: I am in discussions with the developer. Outline planning will be sought for 32 Affordable Houses. Gwynedd Council has asked for a Flood Assessment Risk. I would like to know what TYPE of houses the village needs and wants: what size and what kind of ownership? Please let me know your views.
2) Llanfairisgaer Church sign: the Welsh Assembly will erect a new sign near Plas Menai round-about
3) Tree cutting bottom of Brynffynnon : The Council has now completed this work and the rubbish will be cleared.
4) Building work Ffordd Caernarfon, near former Menai Gararge: Highways is investigating effect of this on the road.
5) Y Goriad : Alwen Derbyshire and myself are amongst 10 new editors who will edit an edition each.
6) Maes Y Felin : I am still working on dog fouling and parking problems. Enforcement officers are in the area.
7) Multi-purpose field near Lon Las: planning has been approved. I'm working with the Youth Football Team on a financial application.
8) FelinDaclus: the Assembly is using the project as an example of good practice.
9) I have been dealing with problems since the changeover in rubbish/recycling arrangements.
10) Rhyd Y Fenai: I have met officers: work continues

11) Memorial Hall: detailed plans have been produced and builders are due to be appointed early March.
12) Felin Sgwrsio: please call in on Friday mornings if you need to discuss anything. A full programme of events is in place.
13)Website : nearly 30,000 hits in Jan 2010. More local news on www.felinheli.org

16) Unrhyw Fater Arall / Any Other Matter

Dim materion eraill i'w trafod a daeth y Pwyllgor i ben am 8.25 yh

Y cyfarfod nesaf i'w gynnal yn Y Neuadd Goffa am 7.00 y.h. Nos Fawrth , Mawrth 9fed.

No other matters to discuss and the Meeting finished at 8.25.p.m.

The next meeting will be held at the Memorial Hall at 7.00 p.m. on Tuesday 9th March 2010